**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

2il o Hydref, 2025

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), Clifford Williams, John Jones (Garndolbenmaen), Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), John Till, Megan Lloyd Williams (Golan), Iddon Edwards (Penmorfa)

**Ymddiheuriadau**

Cynghorydd June Jones, Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Enid Egginton (Garndolbenmaen), Huw Pritchard (Pentrefelin), Gwilym Evans (Prenteg)

**Datgan Buddiant**

Neb

**Penderfyniadau**

Penmorfa - Derbyniwyd cynnig Japanese Knotweed Removal Wales i drin Llysiau'r Dial am 5 mlynedd am £100 y flwyddyn. Cynigiwyd gan MLW ac eiliwyd gan JJ.

Cytundeb Gwastraff Mynwent Bethel - Daw'r cytundeb gyda Veolia i ben ar 17 Hydref. Cafwyd prisiau gan dri chwmni; dewiswyd pris Cyngor Gwynedd. Pawb yn gytûn.

Ymddiswyddiad Cynghorydd - Adroddodd y Clerc fod Jess Williams wedi ymddiswyddo fel cynghorydd Penmorfa. Diolchwyd iddi am ei gwaith. Bydd y Clerc yn cysylltu â Chyngor Gwynedd i hysbysebu'r sedd wag.

**Cynllunio**

**Rhestrau:** 1/9, 8/9, 15/9 a 22/9

**NP2/16/2G –** Adeiladu garej deulawr ar wahân 3 bae gyda swyddfa ar y llawr cyntaf / Bryn Awelon, Garndolbenmaen, LL51 9UJ. Gwrthod ar sail diffyg gwybodaeth.

**NP2/16/71B –** Dymchwel garej ategol presennol i'r ffrynt a'r ystafell wydr i'r cefn, codi estyniad ffrynt deulawr, codi ystafell wydr newydd yn y cefn a newidiadau i allan dŷ ar wahân i greu ystafell gawod. Glan Rafon, Garndolbenmaen, LL51 9UX. Dim gwrthwynebiad.

Ychwanegwyd:

**C25/0612/36/LL -** Tyddyn Ysguboriau Tabor Lane, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0RA. Dim gwrthwynebiad.